O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1651 (Cy. 347)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain o Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) i Gyffordd 20 (Brompton Avenue), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain o Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) i Gyffordd 20 (Brompton Avenue), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 4 Ionawr 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 4 Ionawr 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 Caer i Fangor sy'n ymestyn o Gyffordd 18 (Cyffordd Llandudno) i Gyffordd 20 (Brompton Avenue), Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru